Pennod Chwech

Iechyd a lles sylfaenol

Tlodi ymhlith plant

Lucy Akhtar – Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Iechyd a lles sylfaenol

Safon byw

SYLW TERFYNOL para.44. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn argymell y dylai'r parti Gwladwriaeth:

a) Cymryd pob cam angenrheidiol "gan ddefnyddio'r mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael" i gael gwared â thlodi ymhlith plant yn gyflymach;
b) Cymryd camau cadarnach a mwy cyd-drefnus i ddelio ag achosion digartrefedd ymhlith pobl ifanc a'i ganlyniadau; ac
c) Adolygu ei ddeddfwriaeth a'i bolisïau mewn cysylltiad â budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol ar gyfer rhai 16 i 18 mlwydd oed.

Erthyglau perthnasol yn CCUHP: Erthyglau 4, 6, 18, 26, 27.

Sylwadau ar y cynnydd

a) Dylai'r parti Gwladwriaeth gymryd pob cam angenrheidiol "gan ddefnyddio'r mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael" i gael gwared â thlodi ymhlith plant yn gyflymach.

Mae lefelau tlodi ymhlith plant wedi gostwng yng Nghymru ers 2002 ond mae 27% o blant yn dal i fyw mewn tlodi.[1] Mae hyn yn cyfateb i tua 190,000 o blant. Er nad ydynt wedi'u cofnodi yn ystadegau Llywodraeth y DU ar dlodi o ran incwm, mae plant i geiswyr lloches a gweithwyr ymfudol yn byw ar incwm sy'n is o lawer na lefelau cynhaliaeth.[2] Mae'r tebygolrwydd i faban fod yn dlawd yng Nghymru'n fwy o lawer nag yn Lloegr a phlant yng Nghymru sy'n profi'r lles gwaethaf.[3] Mae teuluoedd mewn ardaloedd gwledig yn rhoi gwybod bod eu mynediad i wasanaethau'n gyfyngedig a'u bod yn teimlo eu bod ar wahân.[4] Nid gwaith hawdd yw cymharu tlodi ymhlith plant ledled y DU; nid yw data ar gael bob amser ar lefel genedlaethol ac nid oes modd eu cymharu ym mhob achos.[5] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi blaenoriaeth i waith rheolaidd ar fonitro lles plant yng Nghymru sy'n mesur cynnydd dros amser ac y gellir ei gymharu ledled y DU. Dylai ddatblygu mecanweithiau ar gyfer mesur tlodi difrifol a pharhaus[6] a chreu proffil manylach o'r plant sy'n fwyaf agored i niwed.

Nid yw treth a budd-daliadau'n faterion sydd wedi'u datganoli ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU mewn cysylltiad â Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant a diddymu Rhent Ystafell Sengl. Dylid cyflwyno sylwadau hefyd ynghylch caniatáu amnest ar ordaliadau o Gredyd Treth; a rhoi trefniant newydd yn lle'r system bresennol o fenthyciadau'r Gronfa Gymdeithasol.

Anodd yw canfod a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru (neu Lywodraeth y DU, yn wir) yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gael gwared â thlodi ymhlith plant yn gyflymach 'gan ddefnyddio'r mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael' gan na roddir eglurhad o fanylion y gwariant ar gyfer cyrraedd yr amcan hwn na manylion am yr adnoddau 'sydd ar gael'. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn (gweler tudalen 16) dadleuir y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio 'cyllideb plant', yn unol ag Erthygl 4 yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig, gan nodi amcangyfrifon o'r cyfrannau a'r symiau y mae'n eu gwario ar blant Cymru. Byddai hefyd yn fuddiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnig dadansoddiad

ychwanegol o'r hyn sy'n cael ei sianelu at blant tlawd yng Nghymru, h.y. plant sy'n byw ar aelwydydd sydd â llai na 60% o'r incwm canolrifol.

Nid oes amheuaeth nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau ystyried yn ddwys iawn y lefelau uchel o dlodi ymhlith plant yng Nghymru ac mae bellach yn troi ei sylw at y frwydr yn erbyn yr hyn y mae'r Comisiynydd Plant wedi'i alw'n 'destun cywilydd cenedlaethol'[7] Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i gadw addewid a wnaed ar y cyd i ddileu tlodi ymhlith plant erbyn 2020 yn ddatblygiad sydd i'w groesawu'n fawr.

Strategaeth ar dlodi ymhlith plant i Gymru?

Ar ôl ymgyrchu gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru,[8] sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grwp Gorchwyl annibynnol ar Dlodi ymhlith Plant yn 2003 i oleuo'r gwaith o ddatblygu strategaeth ar dlodi ymhlith plant i Gymru. Roedd y Grwp Gorchwyl yn cynnwys swyddogion llywodraeth, cyrff anllywodraethol ac academyddion a chynhaliwyd ymgyngoriadau â phlant a phobl ifanc a oedd wedi dylanwadu wedyn ar ei drafodion. Gwnaed nifer o argymhellion yn adroddiad y Grwp Gorchwyl[9] ar feysydd polisi hollbwysig sydd wedi'u datganoli sy'n effeithio ar dlodi ymhlith plant gan gynnwys addysg, iechyd, tai a'r amgylchedd a sgiliau a chyflogaeth. Roedd tystiolaeth a roddwyd i'r Grwp Gorchwyl yn dangos bod plant tlawd yng Nghymru'n gallu teimlo eu bod ar wahân, eu bod wedi'u gadael allan yn yr ysgol ac wedi'u gwarthnodi yng ngolwg pawb oherwydd eu statws cymdeithasol-economaidd. Rhoddodd plant tlawd wybod eu bod yn cael eu bwlio am eu bod yn 'wahanol' i blant eraill a bod y gwahaniaeth hwnnw wedi'i ddwysáu gan y ffaith eu bod yn cael prydau bwyd am ddim yn yr ysgol ac nad oedd ganddynt wisg ysgol iawn. Mae'r darganfyddiadau hyn yn adleisio'r rhai a nodwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru[10] a'r rhai mewn astudiaeth gan Achub y Plant.[11]

Yn Chwefror 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth ar dlodi ymhlith plant *Dyfodol Teg i'n Plant.*[12] Mae'r strategaeth hon yn rhoi ymrwymiad i ddileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru erbyn 2020 ac yn nodi camau gweithredu allweddol (ar sail set o werthoedd craidd sy'n gyson â CCUHP) mewn meysydd polisi y mae'r cyfrifoldeb drostynt wedi'i ddatganoli i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n galonogol bod y strategaeth yn cydnabod mor bwysig yw cael ymgyrch addysg gyhoeddus i chwalu camsyniadau am dlodi ymhlith plant ac yn nodi camau gweithredu i leihau'r ymdeimlad o warth a chywilydd sydd gan blant tlawd. Mae'r strategaeth yn cynnwys £50 miliwn ychwanegol sydd i'w dargedu ar y blynyddoedd cynnar yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gydag o leiaf un ganolfan integredig yn ardal pob awdurdod lleol. Bydd yn rhaid ymestyn hynny os yw'r gwasanaethau hyn i fod ar gael i blant tlawd ym mhle bynnag y maent yn byw.

Gan gydnabod natur drawsbynciol tlodi ymhlith plant, mae Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth y Cynulliad ar Blant a Phobl Ifanc wedi'i wneud yn gyfrifol dros hyrwyddo a monitro'r cynnydd ar y strategaeth. Yn ogystal â hynny, bydd y gweithredu ar y strategaeth yn un o'r testunau yn y trafodaethau blynyddol rhwng Gweinidogion a Draig Ffynci, cynulliad plant a phobl ifanc Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ymddiried â'r dasg o droi'r strategaeth yn Gynllun Gweithredu.

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru'n credu ei bod yn hollbwysig i'r cynllun gweithredu gynnwys targedau a cherrig milltir penodol i fesur cynnydd. Bydd yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod llywodraeth leol yn rhoi blaenoriaeth i weithredu'r strategaeth hon a bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r amcanion strategol. Rhaid iddi ystyried statws y strategaeth ar dlodi ymhlith plant mewn cysylltiad ag ariannu a'r sylw a'r cymorth a roddir ar ei chyfer ar draws yr adrannau. Os ydyw i ddwyn ffrwyth, rhaid i'r strategaeth ar dlodi ymhlith plant gael ei chydnabod yn holl strategaethau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad. Mae angen i holl Gyfarwyddiaethau Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol fod yn fwy ymwybodol ohoni ac o'r goblygiadau sydd iddi. Mae'n bwysig cymryd camau yn sgîl monitro o ran gwireddu'r strategaeth ar dlodi ymhlith plant a hefyd o ran 'prawfesur' datblygiadau newydd mewn polisi i ganfod eu heffaith debygol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar dlodi ymhlith plant.

Cynlluniau cysylltiedig o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae *Cymunedau yn Gyntaf*, sef un o brif raglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn targedu cymorth er mwyn hybu adfywiad y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn ceisio sicrhau mwy o gyfranogi gan bobl leol, er nad oes fawr o sôn yng nghanllawiau presennol Llywodraeth y Cynulliad am gyfranogi gan blant a phobl ifanc. Mae Achub y Plant wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad am yr angen i gryfhau'r canllawiau a phennu rhyw gymorth a hyfforddiant neilltuol i hybu cyfranogiad gan blant a phobl ifanc yn *Cymunedau yn Gyntaf*. Ystyriwyd papur ar y mater hwn gan Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2005[13] ac mae disgwyl y ceir canllawiau newydd yn 2006.

Yn ôl un o nodau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant, ni ddylai plant fod dan anfantais oherwydd tlodi. Mae *Cymorth*, sy'n gronfa unedig, yn fecanwaith ar gyfer hyrwyddo'r nod craidd hwn drwy dargedu cymorth ar blant a'u teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig (drwy gyfrwng Partneriaethau sy'n cael eu harwain gan awdurdodau lleol). Yn 2003-04, roedd *Cronfa Cymorth* yn cynnwys bron £40 miliwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i roi £29 miliwn ychwanegol ar gyfer *Cymorth* dros y cyfnod 2005-08 ar ben y gyfran o arian cynllun y blynyddoedd cynnar a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r strategaeth ar dlodi ymhlith plant.[14]

Cafwyd adroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru[15] sy'n disgrifio rhai o'r prosiectau a gefnogwyd gan *Cymorth* yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o blant sy'n byw mewn tlodi nad ydynt yn byw yn yr ardaloedd sydd wedi'u targedu dan *Cymunedau yn Gyntaf*[16] (sy'n flaenoriaeth i *Cronfa Cymorth*) ac y byddant yn colli'r budd sydd i'w gael o'r cymorth ychwanegol hwn. Oherwydd hynny, mae rôl y gwasanaethau prif ffrwd yn hollbwysig. Dylid canolbwyntio ar ymyriadau cynnar er mwyn cynorthwyo plant a'u teuluoedd a dylai darpariaeth ychwanegol o'r math hwn fod ar gael yn fwy cyffredinol.

Ers Mawrth 2003, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu cynlluniau nofio am ddim i blant yn y gwyliau ysgol. Fodd bynnag, rhaid i blant iau fynd yng nghwmni oedolyn sy'n talu a gallai hynny amharu ar allu teuluoedd sydd ar incwm isel i gymryd rhan. Yn Nhachwedd 2004 rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad i ddarparu brecwast am ddim yn yr ysgol i'r holl blant mewn ysgolion cynradd erbyn Ionawr 2007. Er bod hyn i'w groesawu, bydd yn rhaid rhoi digon o sylw yng nghynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys maethol y brecwastau a sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ateb y galw.

Addysg

Mae cysylltiadau pendant rhwng tlodi a diffyg cyrhaeddiad addysgol. Mae mudoledd cymdeithasol wedi dirywio, yn hytrach na gwella, ym Mhrydain ers 1997[17] ac mae'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a mudoledd cymdeithasol yn elfen ganolog yn hyn. Mae canran y plant sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymhwyster wedi gostwng ond y gyfradd ar gyfer bechgyn a merched yng Nghymru yw'r uchaf yn y DU o hyd.[18] Mae grwp gorchwyl ar y cyd[19] wedi ymchwilio i'r ffactorau sy'n cyfrannu at y bwlch o ran perfformiad rhwng ysgolion mewn ardaloedd cefnog a rhai mewn ardaloedd difreintiedig ac wedi cael bod modd sicrhau canlyniadau llwyddiannus hyd yn oed os yw amgylchiadau'r ysgol yn anodd a dangosodd nad yw amddifadedd yn arwain o reidrwydd at berfformiad gwael. Dylid rhoi ar waith yr argymhellion sydd yn yr adroddiad rhag blaen.

Cost gyfartalog addysg mewn ysgol am flwyddyn i un plentyn yw £563 yn yr ysgol gynradd a £948 yn yr ysgol uwchradd.[20] Mae plant difreintiedig yn teimlo cywilydd am nad ydynt yn gallu fforddio mynd ar dripiau ysgol neu brynu gwisg ysgol iawn.[21] [22] Ceir gwahaniaethau mawr o ran argaeledd y cymorth ariannol gan awdurdodau addysg lleol tuag at gost gwisg ysgol, ac o ran y cymhwyster i'w gael. Yng Ngorffennaf 2005 cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant o £85, o dan adran 14 o Ddeddf Addysg 2002, i helpu teuluoedd i dalu am wisg ysgol. Mae'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau

ysgol am ddim wrth fynd i ysgol uwchradd yn Hydref 2005 yn gymwys i gael y grant. Er bod hyn i'w groesawu, nid yw'n ddigon i dalu'r gost gyfartalog o £185 am wisg ysgol mewn ysgol uwchradd.[23] Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi canllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion yn argymell y dylid ystyried y goblygiadau o ran cost cyn dewis gwisg benodol ac mae wedi annog ysgolion hefyd i ddarparu prydau am ddim mewn modd nad yw'n codi cywilydd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y caiff y canllawiau hyn ryw effaith ar bolisi mewn ysgolion, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd eang iddynt a'u monitro. Nid oes digon o fonitro ar y canllawiau presennol ac mae gwahaniaethau mawr rhwng polisi'r naill ysgol a'r llall.

Iechyd

Rhoddir sylw i anghydraddoldebau iechyd ym mhapur Dr Elspeth Webb ar dudalen 70. Mae'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (FfGC)*[24] a gafodd ei lansio ym Medi 2005 yn cydnabod anghyfartalwch y canlyniadau iechyd ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi. Mae'n cynnwys pwyntiau gweithredu mewn cysylltiad â chymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau, eiriolaeth a gwybodaeth am yr hawl i gael budd-daliadau. Os yw'r *FfGC* i fod yn effeithiol, rhaid cael amserlen fanwl ar gyfer ei weithredu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun yn cydnabod na fydd y camau gweithredu allweddol yn y *FfGC* ond yn cael gwir effaith ar anghydraddoldebau iechyd os bydd digon o adnoddau a monitro priodol ar eu cyfer.

b) Dylai'r parti Gwladwriaeth gymryd camau cadarnach a mwy cyd-drefnus i ddelio ag achosion digartrefedd ymhlith pobl ifanc a'i ganlyniadau.

Mae lefel digartrefedd yng Nghymru wedi codi ers 2002 a rhwng 1997 a 2003 cafwyd cynnydd o 47% yn nifer yr achosion o ddigartrefedd y rhoddwyd gwybod amdanynt, a chynnydd o 100% yn nifer yr achosion a dderbyniwyd, a chynnydd o 486% yn y defnydd o lety Gwely a Brecwast.[25] Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y cyfnod 2003-04, roedd 178 o bobl ifanc 18-21 mlwydd oed a oedd mewn perygl a 937 o bobl ifanc 16 neu 17 flwydd oed a oedd mewn perygl yn ddigartref. Nid yw'r nifer hwn ond yn gyfran o'r rhai sy'n ddigartref mewn gwirionedd gan fod rhai niferoedd o bobl ifanc yn cysgu allan ar y stryd ac yn troi yn y diwedd at gysgu ar soffa neu ar lawr yng nghartrefi eu ffrindiau a'u perthnasau.

Un o'r eitemau cyntaf o is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru oedd *Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001* a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2001 i estyn yr amddiffyniad statudol i gynnwys amryw o grwpiau newydd o rai sy'n agored i niwed gan gynnwys rhai 16 a 17 flwydd oed a rhai sy'n ymadael â gofal yn 18-21 mlwydd oed. Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i ehangu dyletswyddau awdurdodau lleol i gynnwys y grwpiau hyn.

Mae *Deddf Digartrefedd 2002* yn mynnu y bydd awdurdodau lleol yn gwneud adolygiadau o ddigartrefedd, ac yn llunio strategaethau i atal a delio â digartrefedd yn eu hardaloedd. Yn 2004-05 darparwyd £4.917 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynlluniau'r sector gwirfoddol ar gyfer delio â digartrefedd yng Nghymru (o'i gymharu â £60 miliwn yn Lloegr a £20 miliwn yn yr Alban).[26]

Lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd[27] ym Mawrth 2003 a'i hadolygu yn Ionawr 2005. Y prif faterion a ddaeth i'r golwg oedd y dylai'r Strategaeth roi mwy o sylw i ddulliau ataliol ac ymdrin â pholisïau ac arferion croes sy'n tanseilio strategaethau sy'n ymladd yn erbyn digartrefedd fel polisïau ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac arferion sy'n ceisio lleihau ôl-ddyledion heb ystyried effaith gorchmynion i ildio meddiant ac i droi pobl allan. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o farchnadoedd tai lleol a'r ffactorau sy'n achosi digartrefedd ac a allai ei achosi yn y dyfodol, dylid gwneud mwy o waith i gasglu a dadansoddi data ar lefel leol. Mae angen rhoi sylw i brinder y tai fforddiadwy yng Nghymru a darparu digon o adnoddau ar bob lefel i gynnal y strategaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaeth newydd ar hyn o bryd y bydd gofyn iddi roi sylw i'r pryderon hyn.

c) Dylai'r parti Gwladwriaeth adolygu ei ddeddfwriaeth a'i bolisïau mewn cysylltiad â budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol ar gyfer rhai 16 i 18 mlwydd oed.

Nid yw budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol i rai 16 a 17 flwydd oed yn faterion sydd wedi'u datganoli. Nid oes tystiolaeth i gadarnhau'r honiad bod costau byw'n is ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn gallu dibynnu ar eu teuluoedd am gymorth ariannol ac mae'r system budd-daliadau bresennol yn dal i fethu cynnig amddiffyniad i rai 16 a 17 flwydd oed sy'n agored i niwed. Mewn adroddiad gan yr Uned Allgáu Cymdeithasol[28] nodwyd bod natur gymhleth y cymorth ariannol a'r gallu i'w gael yn rhwystr mawr i bobl ifanc a oedd yn dymuno cyfranogi o addysg a hyfforddiant. Ystyriwyd argymhellion yr adroddiad hwn mewn Adolygiad Traws-Lywodraethol o Gymorth Ariannol i rai 16-19 blwydd oed[29] a gyhoeddwyd yr un pryd â'r Gyllideb ym Mawrth 2004. Yn sgîl hynny, dros y 3 tair blynedd nesaf, cyflwynir cynigion sy'n ymwneud yn bennaf â'r bwriad i ddiwygio rheolau Budd-dal Plant a Chredyd Treth Plant ar gyfer teuluoedd rhai 16-19 blwydd oed, i helpu pobl ifanc i gwblhau eu cyrsiau. Yn ogystal â hynny, mae cynlluniau a fydd yn dechrau yn Ebrill 2006 ar gyfer gwella a symleiddio'r dulliau o brosesu ceisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith gan rai 16-17 flwydd oed dan y meini prawf ar ddieithriad a gwell canllawiau i rieni a phobl ifanc ar gymorth ariannol. Mae'r adolygiad hwn yn cyflwyno cynllun tymor hir hefyd ar gyfer cymorth ariannol ar ôl 2007 ar ffurf un system gydlynol sy'n helpu ac yn cynnig anogaeth i bobl ifanc aros mewn addysg a hyfforddiant heb gyflog ar ôl yr oedran gorfodol, drwy ddatblygu'r patrwm o gymorth a geir ar hyn o bryd drwy'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a'r Credyd Treth Plant.

Mae rhai budd-daliadau wedi'u cyflwyno'n ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu pobl ifanc i aros mewn addysg. Ers mis Medi 2004 mae grant wythnosol, y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, wedi bod ar gael i helpu pobl ifanc mewn teuluoedd sydd ag incwm isel i aros ymlaen mewn addysg ar ôl 16 oed. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cyllid hefyd ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n darparu arian ychwanegol i fyfyrwyr mewn teuluoedd sydd ar incwm isel pan fyddant mewn addysg bellach neu addysg uwch. Dylid hefyd ddarparu cronfeydd gweithgareddau ysgol. Mae trafnidiaeth wedi'i nodi fel mater allweddol gan bobl ifanc[30] mewn cysylltiad â derbyn addysg a hyfforddiant. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu cynllun i warantu tocynnau hanner pris ar gyfer pawb rhwng 16 a 18 mlwydd oed ar wasanaethau bysiau a bydd cynllun peilot mewn un neu ddau awdurdod lleol yng ngaeaf 2005.

Casgliad

Cafwyd cryn gynnydd ers 2002 wrth roi lle mwy amlwg i dlodi ymhlith plant ar yr agenda wleidyddol yng Nghymru ac, yn wir, ledled y DU. Fodd bynnag, mae bwlch ar hyn o bryd rhwng dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod digon o adnoddau wedi'u dyrannu at gamau i ddelio â thlodi ymhlith plant, bod ei strategaeth ar dlodi ymhlith plant yn cael blaenoriaeth uwch a bod mwy o frys yn y gwaith o ddatblygu ei chynllun gweithredu gan y bu'n hir yn dod i fodolaeth. Yn benodol, rhaid iddi gysylltu â phartneriaid sy'n rhoi'r strategaeth ar waith a chael ymrwymiad ganddynt ac egluro eu rôl yn y gwaith o ddelio â thlodi ymhlith plant.

Prif argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Rhoi blaenoriaeth i waith monitro rheolaidd ar les plant yng Nghymru, sy'n mesur cynnydd dros amser ac y gellir ei gymharu ar draws y DU.

- Datblygu mecanweithiau ar gyfer mesur tlodi difrifol a pharhaus a chael proffil mwy manwl o'r plant sy'n fwyaf agored i niwed fel y gall dargedu ei hadnoddau ar y rhai mwyaf anghenus.

- Sicrhau bod ei Strategaeth ar Dlodi ymhlith Plant:
  - yn cynnwys targedau a cherrig milltir penodol,
  - yn cael ei chydnabod mewn strategaethau eraill, a gan Gyfarwyddiaethau eraill yn Llywodraeth Cynulliad Cymru,
  - yn cael blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan lywodraeth leol,
  - a'i bod yn rhoi digon o adnoddau i'w rhoi ar waith.

- Rhoi sylw i'r diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru drwy roi digon o adnoddau i gynnal y strategaeth y mae'n ei datblygu ar hyn o bryd i roi sylw i'r pryderon hyn.

Yn ogystal â hynny:

- Dylai'r argymhellion yn *"Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion" (2002)* gael eu rhoi ar waith ar frys.

- Dylid casglu a dadansoddi data ar lefel leol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o farchnadoedd tai lleol a'r ffactorau sy'n achosi digartrefedd yn awr a'r rhai a allai ei achosi yn y dyfodol.

Ôl-nodiadau

[1] Adran Gwaith a Phensiynau (2005) *Households Below Average Income (HBAI) statistics 1994/5-2003/04,* Unfed argraffiad ar bymtheg.

[2] Preston, G. (Gol.) (2005) *At Greatest Risk: The Children most likely to be poor*, Y Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant.

[3] Bradshaw, J. a Mayhew, E. (2005) *The Wellbeing of Children in the UK*, Achub y Plant.

[4] Sharpe, T. (2003) The good life? The impact of rural poverty on family life in Wales, NCH Cymru a Barnardo's Cymru.

[5] Bradshaw, J. a Mayhew, E. (2005) The Wellbeing of Children in the UK, Achub y Plant.

[6] Y diffiniad o blant sydd mewn tlodi difrifol yw'r rhai sy'n byw ar aelwydydd sydd ag incwm o lai na 27% o'r incwm canolrifol, a'r diffiniad o dlodi parhaus yw tair neu fwy o flynyddoedd ar aelwydydd sydd ag incwm sy'n llai na 60% o'r incwm canolrifol. Gweler Adleman L., Middleton S. ac Ashworth K (2003) *Britain's Poorest Children: Severe and persistent poverty and social exclusion.* Achub y Plant.

[7] Comisiynydd Plant Cymru (2002) Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2001-02.

[8] Aelodau'r rhwydwaith yw: Plant yng Nghymru, Barnardos Cymru, Achub y Plant Cymru, NCH Cymru, NSPCC Cymru, Childline Cymru/Wales, Y Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Fairbridge Cymru, Cyngor ar Bopeth, Ymddiriedolaeth Frank Buttle, Shelter Cymru, Comisiynydd Plant Cymru.

[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Ymgynghoriad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant.*

[10] Comisiynydd Plant Cymru (2002) *Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2001-02.*

[11] Crowley, A. a Vulliamy, C. (2003) *Listen Up! Children and Young People Talk: About Poverty,* Achub y Plant.

[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Dyfodol Teg i'n Plant.* Strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol i ddelio â thlodi ymhlith plant.

[13] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Is-bwyllgor y Cabinet (Ebrill 2005) Involving Children and Young People in Communities First Activity CYP(04-05)28.

[14] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Dyfodol Teg i'n Plant.* Strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol i ddelio â thlodi ymhlith plant.

[15] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Cymorth - Cronfa ar gyfer Gwella Cyfleoedd Bywyd Plant a Phobl Ifanc a Bywyd Teuluol yng Nghymru – Adolygiad o flwyddyn gyntaf Cronfa Cymorth 2003-04.*

[16] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Ymgynghoriad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant.*

[17] Blanden, J., Gregg, P. a Machin, S. (2005) *Intergenerational Mobility in Europe and North America,* Sutton Trust, Centre for Economic Performance a London School of Economics and Political Science.

[18] Bradshaw, J. a Mayhew, E. (2005) *The Wellbeing of Children in the UK,* Achub y Plant.

[19] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion.*

[20] Adran Addysg a Sgiliau (2004) *The Cost of Schooling.*

[21] Crowley, A. a Vulliamy, C. (2003) *Listen Up! Children and Young People Talk: About Poverty,* Achub y Plant.

[22] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Ymgynghoriad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant,* Mehefin 2004.

[23] Adran Addysg a Sgiliau (2004) *The Cost of Schooling.*

[24] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth,* Hydref 2004.

[25] Sefydliad Tai Siartredig Cymru (2004) *No Place Like home…. Homelessness in Wales,* Papurau Briffio ar Bolisi Sefydliad Tai Siartredig Cymru.

[26] Sefydliad Tai Siartredig Cymru (2004) *No Place Like home…. Homelessness in Wales*. Papurau Briffio ar Bolisi Sefydliad Tai Siartredig Cymru.

[27] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd,* Mawrth 2003.

[28] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) Survey 2001/02: Socio-economic Inequalities and Health.*

[29] Trysorlys Ei Mawrhydi/Adran Gwaith a Phensiynau/Adran Addysg a Sgiliau (2004) *Supporting Young People to Achieve – towards a new deal for skills,* Llyfrfa Ei Mawrhydi.

[30] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Ymgynghoriad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant,* Mehefin 2004.